
# GWLAD WRTH Y GROESFAN

*Yn sgil buddugoliaeth Abraham Lincoln yn yr etholiad arlywyddol dros 150 o flynyddoedd yn ôl, cychwynnodd yr Unol Daleithiau ar y ffordd tuag at ryfel cartref gwaedlyd.* ***Richard Carwardine*** *sy'n egluro pam roedd y bleidlais hon mor bwysig a sut y llwyddodd Lincoln i guro ei wrthwynebwyr.*



Abraham Lincoln, tua 1860. Roedd wedi ymrwymo i roi terfyn ar un o 'weddillion barbariaeth', a chythruddodd hynny'r De, a oedd yn dal i gadw caethweision.

© iStock Photos

**C Beth oedd y sefyllfa wleidyddol yn arwain at etholiad 1860?**

**A** Byth ers drafftio cyfansoddiad ffederal America yn 1787, bu caethwasiaeth yn destun cynnen a chyfaddawdu gwleidyddol. Ym mlynyddoedd cynnar y genedl newydd yn America, mabwysiadodd sawl talaith yn y Gogledd statudau rhyddfreinio *(statutes of emancipation)*, tra bod technoleg newydd a'r galw rhyngwladol am gotwm wedi peri i gaethwasiaeth wreiddio'n ddwfn yn y de. Lledaenodd amaethyddiaeth planhigfeydd o daleithiau'r Iwerydd i ranbarth y Gwlff. O ganlyniad, byddai nifer y caethweision yn codi i bedair miliwn erbyn 1860.

Ym marn y rhan fwyaf o Americanwyr, roedd y cyfansoddiad yn rhoi i bob talaith gaethiwol *(slave state)* yr hawl i benderfynu ar ddyfodol eu 'sefydliad neilltuol' nhw eu hunain. Er hynny, wrth i gyfaneddwyr *(settlers)* symud draw tua'r gorllewin ac wrth i ffiniau'r genedl ymestyn – drwy brynu Louisiana, meddiannu Texas, a chymryd California a mannau eraill o México drwy rym – byddai argyfyngau'n codi o dro i dro ynghylch statws caethwasiaeth yn y tiriogaethau hyn a'r taleithiau newydd a

gerfiwyd ohonynt.

Yn 1820 ac eto yn 1850 bu cyfaddawdu oherwydd bygythiad rhyfel cartref rhwng y Gogledd a'r De, wrth i'r Democratiaid a'r Chwigiaid – sef y prif bleidiau gwleidyddol yn ystod yr 1830au a'r 1840au – ymdrechu i gadw'r mater dan reolaeth. Ond yn yr 1850au fe gododd y mater drachefn. Erbyn hynny, roedd agweddau mwyfwy anfodlon a'r naill ochr a'r llall yn ei theimlo'i hun yn well na'i gwrthwynebwyr o safbwynt cymdeithasol a moesegol. Roedd hyn yn golygu nad ar chwarae bach y byddid yn dod i gyfaddawd gwleidyddol bellach.

## C Pam mae etholiad arlywyddol 1860 yn bwysig?

**A** Trawsnewidiwyd y berthynas rhwng llywodraeth America a sefydliad caethwasiaeth am byth gan fuddugoliaeth Abraham Lincoln fel ymgeisydd y Gweriniaethwyr am y Tŷ Gwyn ym mis Tachwedd 1860.

Nid Lincoln oedd yr ymgeisydd cyntaf i redeg am swydd yr arlywydd ar blatfform gwrth-gaethwasiaeth. Wedi'u dychryn wrth weld caethwasiaeth yn y planhigfeydd yn gwreiddio'n ddyfnach, bu pleidiau lleiafrifol yn cynnig ymgeiswyr a gefnogai ryddfreinio caethweision ym mhob etholiad am yr arlywyddiaeth ers 1840. Yn 1856 roedd y Blaid Weriniaethol newydd wedi dathlu perfformiadau cryf ar sail maniffesto a ymrwymai i gyfyngu caethwasiaeth – un o 'weddillion barbariaeth' – o fewn ei ffiniau cyfredol. Ond daeth tro ar fyd bedair blynedd yn ddiweddarach, pan fu ymgeisydd gwrth-gaethwasiaeth, a oedd wedi ymrwymo i ddiddymu caethwasiaeth unwaith ac am byth, yn fuddugol yn y coleg etholiadol am y tro cyntaf yn hanes gweriniaeth America.

Yn sgil buddugoliaeth Lincoln, tynnodd De Carolina allan o'r Undeb. Mewn confensiwn ymwahanu *(secession)* arbennig a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr, datganodd y dalaith ei bod wedi dychwelyd i'w lle 'unwaith eto ymhlith cenhedloedd y byd'. Ymhen deufis, roedd chwe thalaith arall ym mhen isaf y De wedi ymuno â hi a ffurfio cynghrair annibynnol taleithiau'r De. Yn ôl cyfansoddiad UDA roedd yn rhaid i'r arlywydd oedd yn gadael, sef y Democrat James Buchanan, aros yn ei swydd rhwng yr etholiad a seremoni sefydlu Lincoln fel yr 16eg arlywydd ar 4 Mawrth 1861. Doedd gan '*Old Buck*' ddim ddigon o awdurdod nac awydd i geisio lliniaru'r argyfwng mwyaf yn hanes y genedl. Byddai'n rhaid dibynnu ar ddoethineb a gwroldeb ei olynydd i ddatrys y broblem.

## C Pwy oedd y Gweriniaethwyr?

**A** Fel pob plaid wleidyddol, clymblaid oedd y Gweriniaethwyr *(Republicans)* newydd. Cododd ei gwahanol garfanau o wleidyddiaeth doredig canol yr 1850au. Crëwyd gwagle gwleidyddol pan gafodd plaid y Chwigiaid ei dinistrio a'i gwrthwynebwyr, y Democratiaid, eu gwanhau. Yn sgil Deddf Kansas-Nebraska 1854, ffrwyth llafur y seneddwr Stephen A Douglas, Democrat o Illinois, agorwyd rhanbarth enfawr ar draws Mississippi i gyfaneddwyr a gadwai gaethweision, rhanbarth yr ystyrid gynt ei fod yn rhydd. Cythruddwyd pobl y Gogledd, a chrëwyd clymbleidiau 'gwrth-Nebraska' ymhlith Democratiaid anniddig, Chwigiaid gwrth-gaethwasiaeth, pobl 'pridd rhydd' *(free soil)* annibynnol a diddymwyr *(abolitionists)* digyfaddawd. Ar yr un pryd, gyda llif mewnfudwyr i'r wlad, llawer ohonynt yn Gatholigion, bu adwaith ymhlith y rhai a anwyd yn America, a roddodd yn ei dro ragor o bwysau ar deyrngarwch gwleidyddol pobl.

Roedd gwrthwynebiad y Blaid Weriniaethol newydd i estyn caethwasiaeth fel glud oedd yn cadw ei helfennau ynghyd o ran polisïau. Roedd yn cynnwys rhyddfreinwyr radical wedi'u gyrru gan bwrpas moesol, hilwyr oedd yn benderfynol o greu gwladfeydd gwynion, blaengarwyr cymdeithasol a ystyriai fod y De'n hynafaidd ac yn farwaidd, a'r rhai a wrthwynebai ddylanwad gwleidyddol cyfaneddwyr y De – 'Grym y Caethweision' oedd yn ôl y sôn wedi cipio'r llywodraeth ffederal.

Erbyn 1860 roedd plaid 'Pridd Rhydd, Llafur Rhydd, Dynion Rhydd' wedi ehangu ei phlatfform i gynnwys tyddynnod i gyfaneddwyr y gorllewin, toll amddiffynnol a rheilffordd y Cefnfor Tawel. Roedd cryfder y *Springfield Republican* yn 'nosbarth y mân ddiddordebau', dynion 'sy'n gweithio â'u dwylo eu hunain, sy'n byw ac yn gweithredu'n annibynnol, sy'n dal eu gafael ar gartref a theulu, fferm a gweithdy, addysg a rhyddid'. Pwysleisiai'r Gweriniaethwyr eu rôl fel plaid cydwybod, gan apelio'n llwyddiannus felly at y cynhenidwyr (*nativists*) gwrth-Gatholig, ac ennill cefnogaeth yng nghymunedau dylanwadol y Protestaniaid a'r mewnfudwyr radical, ac yn bennaf oll, yr Almaenwyr.




© TopFoto

*Ymgyrch arlywyddol 1860. Yma mae ymgeisydd arlywyddol y Gweriniaethwyr, Abraham Lincoln ar fin trechu ei wrthwynebwyr, sef y Democratiaid Stephen A. Douglas a John C. Breckinridge.*

**C Pam y dewisodd y Blaid Weriniaethol Lincoln yn ymgeisydd?**

**A** Cyfarfu arweinwyr y Gweriniaethwyr yn Chicago ym mis Mai 1860 i ddewis ymgeisydd ar gyfer yr arlywyddiaeth. Roedd y sylw'n bennaf ar y Seneddwr William H Seward, cyn lywodraethwr Efrog Newydd, a'r disgwyl oedd mai ef fyddai'n ennill y dydd. Ond roedd ganddo enw am fod yn radical, a thynnwyd sylw at hynny pan roddodd araith yn sôn am y frwydr rhwng cymdeithasau caeth a rhydd fel gwrthdaro nad oedd modd ei atal. Parodd hynny amheuon ymhlith rheolwyr y Gweriniaethwyr. Allai ef ennill cefnogaeth etholwyr ceidwadol hollbwysig yn nhaleithiau isaf y Gogledd (Pennsylvania, Indiana ac Illinois) a oedd yn y gorffennol wedi rhwystro llwybr y blaid tuag at rym?

Ond roedd anfanteision y rhan fwyaf o'i wrthwynebwyr yn gysur i gefnogwyr Seward. Roedd Edward Bates o Missouri yn rhy geidwadol, Simon Cameron o Pennsylvania yn rhy lwgr, barnwr y Goruchaf Lys John McLean yn rhy hen, Salmon P Chase o Ohio yn rhy radical. Ond nid oedd Seward wedi ystyried Abraham Lincoln.

Cafodd Lincoln sylw cenedlaethol yn sgil ei saith dadl yn yr awyr agored â Stephen Douglas ledled Illinois yn 1858. Er mwyn cael ei ethol i senedd yr Unol Daleithiau, ac am iddo ddal ei dir yn erbyn 'Cawr Bach' y Democratiaid, enillodd barch etholwyr gwrth-gaethwasiaeth. Yn ddiweddarach, traddododd araith gelfydd Cooper Union yn Ninas Efrog Newydd, a thynnwyd sylw pobl y dwyrain at soffistigeiddrwydd deallusol ac asgwrn cefn moesol y gorllewinwr hwn nad oeddent wedi'i weld yn y cnawd cyn hynny. 'Ef yw'r dyn mwyaf ers Sant Paul,' meddai un newyddiadurwr. 'Ni wnaeth yr un dyn erioed gymaint o argraff ar ei ymddangosiad cyntaf gerbron cynulleidfa yn Efrog Newydd.'

Mynnai Lincoln y byddai cyfyngu ar gaethwasiaeth yn cadw'n driw i ddibenion sylfaenwyr y genedl ac egwyddorion y Datganiad Annibyniaeth, ond mynnai hefyd fod gan daleithiau'r De hawliau cyfansoddiadol i amddiffyn eu 'sefydliadau domestig'. Nid oedd staen cynhenidiaeth ar Lincoln ei hun, ac roedd yn cynnig cymysgedd o radicaliaeth foesol a cheidwadaeth gyfreithiol a oedd yn caniatáu i'w reolwyr yn Chigaco ei gyflwyno fel gobaith mwyaf dibynadwy'r blaid yn y taleithiau lle roedd amheuaeth. Rhesymeg wleidyddol synhwyrol, nid lwc, enillodd iddo'r enwebiad.

## C Pam y rhannwyd y Blaid Ddemocrataidd?

**A** Roedd y Democratiaid yn frwd o blaid ehangu, felly fel plaid genedlaethol roedd yn rhaid llunio polisi ar gyfer tiriogaethau'r gorllewin a fyddai'n ateb gofynion cwbl groes y cyfaneddwyr pridd rhydd a'r rhai oedd o blaid caethwasiaeth. Am gyfnod, bu dull Stephen Douglas o 'sofraniaeth boblogaidd' – gadael i'r cyfaneddwyr eu hunain ddatrys y broblem drwy bleidlais leol – yn fodd o gadw Democratiaid y De a'r Gogledd yn hapus. Ond roedd yn athrawiaeth amwys yn ei hanfod. Fel egwyddor i uno ni allai oroesi'r rhyfel cartref rhwng cyfaneddwyr oedd o blaid caethwasiaeth a phobl y pridd rhydd yn Kansas, na'r ffaith i'r Arlywydd Buchanan ildio i gefnogwyr cyfansoddiad o blaid caethwasiaeth yno. Er mwyn i Douglas oroesi'n wleidyddol yn Illinois ac yn y Gogledd ehangach bu'n rhaid iddo droi yn erbyn y weinyddiaeth genedlaethol.

Er hynny, ef oedd prif Ddemocrat y wlad, a disgwyliai ennill enwebiad arlywyddol ei blaid yn 1860. Ond erbyn hynny, roedd deheuwyr dylanwadol wedi taflu sofraniaeth boblogaidd o'r neilltu. Ac yn sgil penderfyniad hanesyddol y Goruchaf Lys yn achos Dred Scott (bod hawliau eiddo perchenogion caethweision yn gysegredig), yn teimlo'n ddigon dewr i ddechrau galw am amddiffyniad cyfreithiol ffederal i gaethwasiaeth yn y tiriogaethau. Roedd cynadleddau cenedlaethol y blaid yn llawn tensiwn, ac roedd wedi'i rhannu dros fater cod caethwasiaeth ffederal. Bu'n rhaid i Douglas ymladd yr etholiad fel ymgeisydd y Democratiaid rheolaidd, a'r perchennog caethweision o Kentucky, John C Breckinridge, yn cynrychioli radicaliaid y De a oedd yn barod i ystyried gadael yr Undeb pe na chaent eu ffordd.

## C Pam na safodd Lincoln yn y De?

**A** Roedd nerfusrwydd yn cynyddu yn y De ynghylch cynnydd plaid wrth-gaethwasiaeth a daeth i benllanw yn hydref 1859 wedi ymdrech aflwyddiannus y diddymwr John Brown i ddechrau gwrthryfel ymhlith y caethweision drwy gipio'r stordy arfau ffederal yn Harpers Ferry, Virginia. Roedd arweinwyr y De wedi'u harswydo, a chyhuddwyd y 'Gweriniaethwyr Duon' o annog gwrthryfel hiliol. Ond cyflwynai'r Gweriniaethwyr eu hunain fel y blaid wirioneddol genedlaethol, yn ffyddlon i fwriadau sylfaenwyr y genedl ac yn ffyddlon i fuddiannau'r bobl wynion yn y De nad oeddent yn cadw caethweision. Dyma ddarlun ohonyn nhw'u hunain a atgyfnerthwyd gan weithiau dyn o Ogledd Carolina, Hinton Rowan Helper, a honnai yn *Impending Crisis of the South* fod cyflwr pobl wynion dlawd y De ac arafwch eu heconomi'n ganlyniad i effaith ddifäol caethwasiaeth ar fentergarwch a chyfleoedd.

> **Gwnaeth buddugoliaeth Lincoln newid y berthynas rhwng y llywodraeth a chaethwasiaeth am byth.**

Daeth y llyfr yn arf pwysig i bropogandwyr Gweriniaethol yn 1860. Fe'i gwaharddwyd gan awdurdodau'r De, a byddai *vigilantes* yn llofruddio ac yn gyrru ymaith y rhai fyddai'n dyfynnu ei athrawiaethau. Safodd ymgeiswyr ym mhlaid Lincoln yn rhai o'r taleithiau caethiwol ar y ffin. Enillodd Lincoln yntau filoedd o bleidleisiau mewn taleithiau caethiwol ar y ffin megis Missouri a Delaware, ond ni fentrodd i daleithiau isaf y De, lle nad oedd yr un Gweriniaethwr ar y papurau pleidleisio.

## C Ai'r rhwyg ymhlith y Democratiaid enillodd yr etholiad i'r Gweriniaethwyr?

**A** Enillodd Lincoln yr arlywyddiaeth gyda dim ond 40 y cant o'r bleidlais boblogaidd, saith y cant yn llai na chyfanswm pleidleisiau ei ddau wrthwynebydd Democrataidd. Ond nid y rhwyg yn y Blaid

Ddemocrataidd ynddo'i hun roddodd fuddugoliaeth i'r Gweriniaethwyr, oherwydd enillodd Lincoln fwyafrif clir yn bron pob un o'r taleithiau rhydd, gan gynnwys Efrog Newydd, Pennsylvania, Ohio, Massachusetts a'r taleithiau poblog eraill lle'r oedd yr etholwyr arlywyddol wedi'u cronni. Hyd yn oed gyda'i gilydd, ni fyddai'r gwrthbleidiau wedi ennill.

Lincoln oedd gryfaf o bell ffordd yn y coleg etholiadol, gyda 180 o bleidleisiau yn erbyn 72 i Breckinridge a 12 i Douglas. Dim ond 39 gafodd pedwerydd ymgeisydd, John Bell, a oedd yn apelio at bleidleiswyr ceidwadol a gollodd eu cartref gwleidyddol yn sgil tranc plaid y Chwigiaid. Yn fwy arwyddocaol na'r rhwyg ymhlith y Democratiaid o ran agor y drws i fuddugoliaeth Lincoln, roedd llwyddiant y Gweriniaethwyr o ran rhoi pwysau ar blaid Undeb Cyfansoddiadol Bell yn nhaleithiau isaf y Gogledd.

## C A oedd ethol Lincoln yn ddigon o reswm i daleithiau'r De ymwahanu?

A Symudodd cenedlaetholwyr tanbaid y De'n gyflym i ennyn cefnogaeth i ymwahanu oddi wrth yr Undeb a oedd wedi ethol 'Gweriniaethwr Du' ar bleidlais adrannol yn unig. Credai pobl wynion nerfus yn y De y byddai diddymwr yn y Tŷ Gwyn yn defnyddio'i le yn y llywodraeth i ysgogi'r gwrthryfel y methodd John Brown â'i gyflawni. Rhybuddiai ceidwadwyr y De hwythau yn erbyn gweithredu byrbwyll. Wrth i Dde Carolina arwain yr ymgyrch tuag at ymwahanu, dywedodd y realydd James Pettigru, fod y dalaith yn rhy fach i fod yn weriniaeth ond yn rhy fawr i fod yn wallgofdy *(asylum).*

Roedd rhai pobl bwyllog oedd yn berchen ar gaethweision o'r farn nad oedd y Gweriniaethwyr yn fygythiad uniongyrchol i'r De eto: nid oedd y blaid yn rheoli'r Gyngres na'r Goruchaf Lys, ac nid oedd Lincoln chwaith yn ddiddymwr radical. Roeddent o'r farn, ac yn gywir felly, fod mwy o risg i ymwahanu ar unwaith nag aros am weithred amlwg ymosodol gan y weinyddiaeth newydd yn Washington. Ond roedd radicaliaid y De yn ffyddiog y gallai'r Deyrnas Gotwm ei chynnal ei hun gartref a thramor, ac aethant ati i fegino'r tân ac ennill y dydd. Yn bennaf oll, aethant ati i chwarae ar ofnau y byddai'r arlywydd newydd yn llenwi'r taleithiau caethiwol â phobl mewn swyddi ffederal sef cnewyllyn o bumed golofnwyr gwrth-gaethwasiaeth wedi ymroi i gyflawni gwrthryfel gwleidyddol a hiliol ledled y rhanbarth.




© TopFoto

*Ergydion cyntaf y Rhyfel Cartref: llun yn dangos yr ymosodiad ar Fort Sumter yn harbwr Charleston ym mis Ebrill 1861.*

## C Pa ran chwaraeodd canlyniad yr etholiad yn nyfodiad y rhyfel cartref?

A Daeth rhyfel yn sgil ymwahaniad y De oherwydd i Lincoln, gyda chefnogaeth y mwyafrif o ogleddwyr, wrthod derbyn bod gan ei gydwladwyr hawl gyfansoddiadol i dorri'n rhydd o Undeb 'tragwyddol', ac yn sicr nid yn sgil etholiad democrataidd teg a enillwyd yn gyfiawn. Ddechrau mis Ebrill 1861, pan anfonodd Lincoln long heb arfau i ailgyflenwi amddiffynfa ffederal yn harbwr Charleston, dechreuodd gynnau'r Gyngres saethu. Fel y dywedodd Lincoln yn ddiweddarach: Doedd yr un o'r ddwy ochr yn cymeradwyo rhyfel; ond byddai'n well gan un ohonynt ryfela na gadael i'r genedl oroesi; a byddai'r llall yn derbyn rhyfel yn hytrach na gadael iddi drengi.'

Rhyfel oedd hwn, felly, dros ddyfodol y genedl ac yn y cyfnod cynnar, o leiaf, nid dros fodolaeth neu ddifodiant caethwasiaeth. Ond amlygodd etholiad 1860 y rhwyg enfawr rhwng y Gogledd a'r De o ran eu dealltwriaeth anghymarus ynghylch dyfodol caethwasiaeth yn y weriniaeth. Bu'r rhwyg yn dyfnhau ers meddiannu Texas (1845) ac roedd ildiad México (1848) wedi codi cwestiynau sylfaenol am statws caethwasiaeth yn y tiriogaethau newydd. Cyrhaeddodd y gynnen wleidyddol benllanw yn etholiad 1860.

Beth bynnag am honiadau diweddarach y Cynghreirwyr a'u holynwyr modern, nid argyfwng am 'hawliau'r taleithiau' yn haniaethol oedd argyfwng yr Undeb yn 1861–65. Argyfwng oedd hwn ynglŷn â'r bygythiad ymddangosiadol i rym y taleithiau caethiwol i reoleiddio'u 'sefydliadau domestig'.

Lincoln ei hun esboniodd hyn orau, fis cyn ei ladd. Roedd y caethweision, meddai, 'yn fudd neilltuol a grymus. Gwyddai pawb mai'r budd hwn, rywfodd, achosodd y rhyfel. Er mwyn cryfhau, cynnal, ac estyn y budd hwn byddai'r gwrthryfelwyr yn rhwygo'r Undeb, hyd yn oed drwy ryfel; tra nad oedd y llywodraeth am wneud dim mwy na sicrhau'r hawl i gyfyngu ar ehangiad tiriogaethol caethwasiaeth.'

Roedd etholiad 1860 wrth graidd y stori hon.

**Richard Carwardine** yw'r athro Rhodes ar hanes America, Coleg y Santes Catrin, Rhydychen. Ef yw awdur *Lincoln: Profiles in Power* (Longman, 2003)

**Llyfrau**

**Battle Cry of Freedom: The Civil War Era** gan James M McPherson (*Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2003*)

**Civil War America: Making a Nation, 1848–1877** gan Robert Cook (*Pearson Education, 2003*)

**Lincoln: A Life of Purpose and Power** gan Richard Carwardine (*Knopf Publishing, 2006, hefyd ar gael fel llyfr sain*)